

CAERDYDD Sy'n Dda i Blant



04

YMCHWILWYR

WWW.CAERDYDDSYNDDAIBLANT.CO.UK



CYFLWYNIAD

3.1 YMCHWILWYR

Mae ymchwil yn ffordd dda o greu syniadau a galluogi aelodau o'r teulu i wneud cyfraniad cadarnhaol at bolisiau a materion sy'n effeithio arnynt. Mae datblygu sgiliau ymchwil yn rhywbeth hawdd a difyr i'w wneud ac yn rhywbeth y gellir i drosglwyddo'n hawdd. Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i helpu darllenwyr i gynnal eu grŵp ymchwil eu hunain a galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gyfranogi ar lefel sylfaenol wrth greu polisi.

Mae rhoi cyfle i aelodau'r teulu ymchwilio i faterion a syniadau maent wedi'u nodi yn ffordd wahanol o hwyluso cyfranogiad. Mae ymchwil yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr nodi pwnc ymchwil sydd o bwys iddynt a gwneud penderfyniadau o ran sut maen nhw'n mynd i ymchwilio i'r pwnc hwnnw - pa ddulliau maen nhw'n mynd i'w defnyddio, sut maen nhw'n mynd i ddatblygu'r syniad, cynnal yr ymchwil, dadansoddi'r wybodaeth, dod i gasgliadau, cyflwyno canfyddiadau a gwneud argymhellion?

Pan fydd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gwneud y gwaith ymchwil, byddant yn gallu nodi ac ystyried materion o fewn eu patrwm dealltwriaeth eu hunain. Mae'r deunydd a gynhyrchir yn ystyried eu safbwyntiau a'u hargymhellion nhw sy'n berthnasol ac o fudd iddyn nhw eu hunain ac eraill. Drwy gyfathrebu'n briodol, byddant yn cyfranogi fwy tuag at y broses o wneud penderfyniadau.

MANTEISION I DEULUOEDD

Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn elwa o gymryd rhan yn y broses o gyfranogi a gwneud penderfyniadau trwy ddysgu sgiliau ymarferol newydd sy'n gysylltiedig â rhedeg project yn ogystal â datblygu 'sgiliau meddal' megis gwaith tîm, siarad ar ran eraill. Mae'r gweithgareddau hyn yn eu helpu i fagu hyder, cyfranogi yn eu cymunedau a chreu gwybodaeth. Maent yn gallu lleisio eu pryderon ynghylch materion sy'n effeithio arnynt a gwneud argymhellion o ran sut i fynd i'r afael â'r materion hyn.

AR GYFER AWDURDODAU LLEOL

Mae'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn mynnu bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod Lleol ac yn nodi, 'rhaid i Awdurdod Lleol wneud trefniadau addas i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt nhw. Mae hyn yn cynnig ffordd arloesol o allu cyfranogi'n effeithiol ar lefel leol. Bydd cyfranogi llwyddiannus yn sicrhau bod y gwaith cynllunio'n cael ei wneud yn fwy effeithiol a bod y gwasanaethau a ddarperir, felly, yn fwy perthnasol a hygyrch.

IYMARFERWYR LLEOL

Mae gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth ac ymchwilwyr yn eu galluogi i nodi eu pryderon, eu hystyried a gwneud argymhellion. Gellir defnyddio'r wybodaeth newydd a ddysgwyd i lywio gwaith ymarferwyr lleol i sicrhau bod eu gwaith yn berthnasol ac yn fwy hygyrch.

PRYD I DDEFNYDDIO AELODAU'R TEULU FEL YMCHWILWYR

Ceir esiamplau isod sy'n dangos pryd y defnyddiwyd y dulliau hyn yn y gorffennol. Mae'r fethodoleg yn addas i ystod eang o sefyllfaoedd ar lefel genedlaethol a lleol ac ar gyfer ei defnyddio ag ystod oedran eang; mae'n briodol ar gyfer:

- Gwerthuso gwasanaethau;
- Cyfrannu at ddatblygu polisi;
- Dyrannu cyllideb;
- Sicrhau cynrychiolaeth e.e. grwpiau anodd eu cyrraedd lle nad ydynt fel arfer yn cael cyfle i roi eu barn.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, ac mae sawl sefyllfa arall lle gellid ystyried barn defnyddwyr gwasanaeth gan ddefnyddio'r dull hwn.

LLINELL AMSER Y PROJECT

Mae amser yn gweithio'n wahanol i aelod ifanc o'r teulu; mae wythnos yn amser hir i blentyn ifanc ac mae angen i unrhyw broject symud ymlaen yn ddigon cyflym i barhau'n ystyrion. Byddai gweithio dros gyfnod o dymor yn ddelfrydol, ond ar yr hiraf, dylid cwblhau project o fewn blwyddyn ysgol. Mae'n bwysig bod cyfranogwyr yn gweld project yn cael ei gwblhau ac yn ddelfrydol, unrhyw effaith a gaiff. Mae hefyd oblygiadau o ran amser i aelodau hyn o'r teulu sydd ag ymrwymadau eraill i'w hystyried gan gynnwys gwaith, bywyd teulu ac ati a bydd angen ystyried y rhain o'r dechrau a'u trafod ag aelodau'r grŵp.

Bydd faint o amser fydd ei angen hefyd yn dibynnu ar sut mae'r grŵp yn gweithio, pa mor frwdfrydig ac awyddus ydyn nhw a beth maen nhw eisiau ei wneud.

Mae'n bwysig bod yn glir o ran faint o amser y mae disgwyl iddyn nhw ei ymrwymo a phryd fydd y project yn dod i ben. Bydd gosod targedau clir gydol y broses o gymorth o ran cadw momentwm. . will end. Setting clear targets throughout the research process with help maintain momentum.

CYFLWYNIAD

3.1 YMCHWILWYR (PARHAD)

YSTYRIAETHAU MOESEGOL

Mae'r ystyriaethau moesegol sydd angen eu hystyried i gynnal ymchwil gyda defnyddwyr gwasanaeth yn debyg i'r ystyriaethau moesegol sydd angen eu hystyried wrth weithio gyda hwy mewn unrhyw fodd arall. Mae synnwyr cyffredin yn dweud wrthym beth yw'r rhain, a byddwch yn ystyried yr holl bethau hyn yn feunyddiol er mwyn gweithio mewn ffordd ddiogel a phriodol gyda hwy.

Mae'r prif egwyddorion wedi'u nodi isod.

- Amddiffyn Plant
- Diogelu Plant
- Gwahaniaethu
- Caniatâd gwybodus
- Parch

Mae'n bwysig iawn cynnal sesiwn ar foeseg ymchwil gyda'r cyfranogwyr yr ydych yn gweithio gyda hwy fel rhan o'u hyfforddiant cyffredinol ar sgiliau ymchwil.

GWYBODAETH YMCHWIL

Bydd angen dealltwriaeth sylfaenol o ddulliau ymchwil i sicrhau bod yr aelod o'r teulu yn gallu symud ymlaen gyda'r project. Dylai'r adnodd hwn roi digon o wybodaeth i chi allu dechrau arni; fodd bynnag, mae ymchwil yn faes cymhleth ac efallai yr hoffech ddatblygu eich gwybodaeth ymhellach yn ddiweddarach.

GWEITHGAREDD 1

FY NGHYMUNED

AGNEN

Hyfforddi ymhellach a deall beth yw ymchwil.

NOD

Nod y gweithgareddau hyn yw annog defnyddwyr gwasanaeth i ddechrau meddwl beth yw ymchwil a sut i gynnal ymchwil.

AMCANION

- Hyfforddi mewn ymchwil
- Cynyddu dealltwriaeth y defnyddwyr gwasanaeth o'r Agenda Cyfranogi leol;
- Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddod i adnabod ei gilydd a rhannu profiad cyffredin;

METHOD

Run a series of informal educative, fun & interactive workshops.

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Mae'r gweithgaredd hwn yn un da ar gyfer grwpiau llai o dri neu bedwar:

- Rhowch ddarn o bapur siart troi a phennau lliw i bob grŵp a gofynnwch iddynt dynnu llun o'u hardal leol (gadewch i bob grŵp ddiffinio maint yr ardal leol – e.e. bydd rhai plant ond yn cynnwys eu llwybr i'r ysgol/y siop leol, tra bydd eraill yn meddwl yn nhermau ardal fwy. Bydd hyn yn dangos i ni sut mae'r plant hyn yn profi eu hardal leol a'u hamrywiaeth o brofiadau hyd yma.)
- Os defnyddir y gweithgaredd i nodi pwnc ymchwil, gofynnwch i'r plant am eu syniadau nhw o ran yr hyn sy'n dda a'r hyn sydd ddim cystal am eu hardal leol. Gellir defnyddio technegau megis 'sgorio diemwnt' fel cam nesaf i flaenoriaethu'r syniadau a gesglir.
- Os ydyn nhw eisoes wedi dewis pwnc, dylent ystyried y pwnc hwn a'i berthnasedd yng nghyd-destun eu cymuned leol.
- Gofynnwch i bob grŵp am eu syniadau gan hwyluso trafodaeth o ran beth, yn eu barn nhw, yw'r 'gymuned leol' mewn perthynas â'u pwnc ymchwil penodol, a sut y gallai effeithio ar y gymuned honno.

FY NGHYMUNED (PARHAD)

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Fy Nghymuned	Meddwl am bwnc: mae hwn yn weithgaredd da i'w ddefnyddio fel man cychwyn i annog y grŵp i feddwl am faterion yn eu hardal leol yr hoffent eu datblygu fel pwnc ar gyfer eu gwaith ymchwil. • Nodi/dewis cyfranogwyr: gallai'r gweithgaredd hwn helpu'r grŵp i feddwl am bwy yr hoffent gael help ganddynt gyda'u gwaith ymchwil, canfod lle maen nhw yn eu cymuned a meddwl am y lle/ffordd orau o gael gafael arnynt. • Dulliau ymchwil: Defnyddiwch y mapiau i helpu'r grŵp i feddwl pa ddull yw'r un mwyaf perthnasol i'w cyfranogwyr. Er enghraifft, wrth gynnal project mewn ysgol gallai'r plant weld ei bod yn haws cael syniadau gan blant ac y gellid cynnal cyfweiliadau. Fodd bynnag, mae cael gafael ar oedolion yn y ganolfan hamdden yn anoddach a gallai fod yn rhy anodd trefnu cyfweiliadau. • Dehongli darganfyddiadau: gallai map cymunedol helpu'r grŵp i ddehongli eu darganfyddiadau. Er enghraifft, gallai'r grŵp amlygu ar eu mapiau pwy ddywedodd beth – 'roedd plant yn yr ysgol yn meddwl... ond roedd oedolion yn y ganolfan gymunedol yn meddwl... • Adrodd: Os ydych wedi defnyddio'r map cymunedol gydol y project byddai'r map ei hun yn ffordd weledol ddiddorol i'r grŵp adrodd eu gwaith a dangos gwahanol safbwyntiau yn y gymuned	Papur siart troi Pennau

GWEITHGAREDD 2

GORAU A GWAETHAF

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

- Cyflwyno'r pwnc neu'r mater a ddewiswyd i'r grŵp.
- Gall y plant wneud y gweithgaredd hwn ar eu pen eu hunain neu mewn paru/grwpiau bychain. Gofynnwch iddynt ddychmygu'r esiampl waethaf posibl o'r pwnc (e.e. parc gwaethaf y byd). Dosbarthwch ddarnau o bapur a gofynnwch iddynt lunio'u hesiampl hunllefus.
- Yna, gofynnwch iddynt ddychmygu'r esiampl orau o'r pwnc (e.e. parc gorau'r byd) a thynnu llun.
- Dangos y gwaith celf a hwyluso trafodaeth am y lluniau a'r rhesymau tu ôl i'w syniadau.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Gorau a gwaethaf	• Meddylwch am bwnc a'i ddatblygu: mae hyn yn ffordd dda i'r grŵp archwilio eu pwnc/mater. Gall deall y pwnc ar ei 'orau' ac ar ei 'waethaf' fod yn ffordd o annog y grŵp i feddwl yn realistig am yr hyn y gallant ei ddisgwyl/cyflawni. • Dulliau ymchwil: gofynnwch i'r grŵp feddwl am y dulliau gweithio gwaethaf a gorau (er enghraifft, beth fyddai'n gwneud y cyfweiliad gwaethaf a gorau?) Gall y dull hwn amlygu'r materion i'w hystyried wrth gyflwyno'u dull (er enghraifft mae cyfwelydd da yn wrandawr da. Efallai na fydd y grŵp wedi meddwl am yr agwedd hon wrth benderfynu ar eu methodoleg). • Adrodd: gofynnwch i'r grŵp feddwl beth fyddai'n gwneud yr adroddiad terfynol gwaethaf a gorau. Bydd hyn yn helpu'r grŵp i feddwl am yr hyn sydd angen iddynt ei gynnwys a ffyrdd da a diddorol o gyfleu eu neges.	Papur Pennau

GWEITHGAREDD 3

GÊM BALŴN

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dylid gwneud y gweithgaredd hwn gyda'r grŵp cyfan.

- sgrifennwch ddatganiadau/cwestiynau mewn perthynas â'r broses ymchwil neu bwnc y grŵp.
- Rhowch y rhain yn y balŵns a'u chwythu i fyny.

- Chwaraewch y gêm 'pasio'r parcel' gydag 1 balŵn ar y tro. Pan fydd y gerddoriaeth yn stopio mae'n rhaid i'r person sy'n dal y balŵn ei fyrstio! (Awgrym – y ffordd orau o wneud hyn yw sefyll arno!).
- Bydd y person sy'n byrstio'r balŵn yn darllen yr hyn sydd ar y papur tu mewn.

- Bydd y grŵp yn trafod y sylw tra bo'r gweithiwr yn ysgrifennu'r prif bwyntiau trafod ar y papur siart troi.
- Gallwch ailadrodd y gweithgaredd gyda chynifer o falŵns ag y gallwch eu chwythu i fyny!

GWEITHGAREDD 3

GÊM BALŴN (PARHAD)

PENNOD 4
YMCHWILWYR

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Dosgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Gêm balŵn	Meddylwch am bwnc a/neu ei ddatblygu: Mae hyn yn ffordd dda o gael pobl i feddwl am bwnc neu ddatblygu syniad sydd ganddynt. Ysgrifennwch ddatganiadau yn ymwneud â'u pwnc i'w rhoi yn y balŵns i annog trafodaeth o ran ei bwysigrwydd a/neu berthnasedd: - Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ardal leol? - Beth hoffech chi wybod mwy amdano? - Beth hoffech chi ei newid yn yr ysgol? - Beth hoffech chi i oedolion ei wybod am blant? - Beth yw eich diddordebau? - Beth fyddai'n gwneud pethau'n well i chi? Beth yw ymchwil? Llenwch y balŵns gyda datganiadau yn ymwneud ag ymchwil megis: 'ymchwil yw'r hyn rwyf i'n ei feddwl' 'mae gwneud ymchwil yn golygu bod rhaid i chi gael holiadur' 'oedolion sy'n gwybod orau am ymchwil' Anogwch drafodaeth am ymchwil; ar ddiwedd y gêm anogwch y grŵp i feddwl am ddatganiad o ran beth mae ymchwil yn ei olygu iddyn nhw.	Balloons, Topic statements/questions, Flipchart paper, Pens

Table continued on next page

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
		Dulliau ymchwil: Llenwch y balŵns gyda datganiadau yn ymwneud ag ymchwil megis: • ‘Beth yw holiadur?’ • Beth yw’r agwedd orau/gwaethaf ar gyfsweld â phobl?’ • ‘Fyddai blwch awgrymiadau yn ddiogel yn lleoliad a, b neu c?’ Anogwch drafodaeth o ran yr hyn sydd ynghlwm â phob dull ymchwil ac, ar ddiwedd y gêm, anogwch y grŵp i ddewis eu dull(iau) ar sail eu trafodaeth. Moeseg: Llenwch y balŵns gyda datganiadau’n ymwneud ag ymchwil e.e. • ‘Mae’n iawn cymryd lluniau o blant os mai’r plant sy’n eu cymryd’ • ‘Nid oes angen caniatâd i gael holiadur’ • ‘Mae angen i ni wybod enwau’r bobl sy’n rhan o’n gwaith ymchwil’ Anogwch drafodaeth o ran beth mae pob datganiad yn ei ddweud a sicrhewch fod y grŵp yn deall y cefndir moesegol y tu ôl i’w pwnc penodol. Felly, yn yr un modd â’r cwestiynau uchod: • Nid yw’n iawn tynnu llun o unrhyw un heb ei ganiatâd, waeth pwy sy’n tynnu’r llun • Nid oes angen caniatâd arnoch ar gyfer holiadur cyhyd nad yw’n rhy bersonol nac yn peri gofid i’r cyfranogwr • Fel arfer nid oes angen enwau’r bobl sy’n cymryd rhan yn eich ymchwil. Os bydd y grŵp wedi gwneud holiadur ni fydd angen gwybod enwau’r bobl, ond efallai bydd angen i chi wybod eu hoedran a/neu ryw.	

Table continued on next page

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
		Pa gyfranogwyr? Llenwch y balŵns gyda chynifer o gategoriâu o bobl ag y gallwch e.e. plant, plant yn eu harddegau, athrawon, rhieni, heddlu, nyrsys, cynghorwyr, babanod, ceidwaid siopau, swyddogion amser cinio, pensiynwyr, ac ati... Anogwch drafodaeth o ran a yw'r bobl a enwyd yn berthnasol i'w cynnwys yn y gwaith ymchwil neu beidio. Ar ddiwedd y gêm dylai'r grŵp gael rhestr o'r bobl sy'n berthnasol yn eu barn nhw. Efallai bydd angen rhestru'r rhain ar ffurf 'sgôr diemwnt' os yw'r rhestr yn un fawr. Dehongli darganfyddiadau: Llenwch y balŵns gyda darganfyddiadau o'u hymchwil e.e. • 'Dyweddodd y mwyafrif o'r plant eu bod yn hoffi'r parc ond nid dyna'r achos gyda phobl hŷn' • 'Mae plant yn eu harddegau eisiau rhywbeth i'w wneud ond nid ydynt yn hoffi mynd i'w canolfan gymunedol' Gofynnwch i'r grŵp drafod pob darganfyddiad a chanolbwyntio ar ofyn 'pam' eu bod yn credu hyn. Ar ddiwedd y sesiwn dylech gael dehongliadau o'ch darganfyddiadau. Efallai bydd angen trafod y rhain ymhellach cyn eu cwblhau.	

GWEITHGAREDD 4

PICTIONARY

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Mae'r gweithgaredd hwn yn seiliedig ar y gêm 'Pictionary'. Cofiwch fod angen meddwl am hyn ymlaen llaw a gwneud y cardiau ar gyfer pwnc neu gam arbennig o'r project. Drwy wneud hyn, bydd y gêm yn fwy perthnasol i'ch grŵp chi a'u gwaith.

- Ysgrifennwch ddatganiadau ar wahanol ddarnau o gerdyn.
- Mae'n rhaid i weddill y grŵp ddyfalu beth sydd ar y cerdyn.
- Gofynnwch i wirfoddolwr yn y grŵp sefyll yn y ffyrnt.
- Dangoswch gerdyn i wirfoddolwr a rhwch 30 eiliad iddo dynnu llun ohono ar y papur siart troi.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
25 munud	Pictionary	• Meddylwch am bwnc a/neu ei ddatblygu: Os ydych yn gwybod bod eich grŵp wedi meddwl am bwnc posibl ond bod angen ffocws iddo, ysgrifennwch ddatganiadau yn gysylltiedig â'r pwnc hwnnw. Er enghraifft, os yw'r grŵp eisiau edrych ar y parc lleol gallech gynnwys siglenni, sleidiau, gatiau, cŵn, ffensys, mwyyr duon, gwydr wedi torri, plant yn eu harddegau, ac ati... Ar ôl i'r grŵp gael gwybod beth oedd y person yn tynnu llun ohono gallant drafod p'un a yw'r hyn sydd ar y cerdyn yn berthnasol iddyn nhw. • Dulliau ymchwil: Gallai pob datganiad ymwneud â dull ymchwil, e.e. holiadur, cyfweiliad, grŵp ffocws, DVD, lluniau, blwch awgrymiadau, collage ac ati... Ar ôl i'r grŵp gael gwybod beth oedd y person yn tynnu llun ohono gallant drafod p'un a fyddai'r dull hwnnw'n fuddiol i'w gwaith. • Pa gyfranogwyr? Gallai pob datganiad gael enw grŵp o bobl arno, er enghraifft, rhieni, babanod, yr heddlu, nyrsys, pensiynwyr ac ati... Ar ôl i'r grŵp gael gwybod beth oedd y person yn tynnu llun ohono gallant drafod p'un a ydyw'n addas i'w project.	Cardiau Pictionary wedi'u gwneud â llaw

GWEITHGAREDD 5

SWIGOD SIARAD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Introduce the topic to the group.

Os oes amser, rhannwch y grŵp yn grwpiau llai neu barau a gofynnwch iddynt drafod y pwnc a'i berthnasedd.

Rhowch dri darn o bapur neu dair swigen siarad i bawb yn y grŵp.

Gofynnwch iddynt ysgrifennu pam fod y pwnc hwn yn bwysig, beth y gellid ei wneud i'w wella... Rhowch fwy o bapur/swigod siarad os oes angen.

Ar ôl i'r swigod siarad gael eu cwblhau rhowch nhw ar y wal gan ddarllen yr hyn a ysgrifennwyd i'r grŵp cyfan.

Anogwch y grŵp i drafod y pwnc a rhoi eu barn ar yr hyn y mae eraill wedi'i ysgrifennu.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
25 munud	Swigod siarad	Gellir defnyddio'r gweithgaredd hwn ym mhob cam o'r broses ymchwil gan ei fod yn gofyn am safbwyntiau. Isod ceir rhestr o bynciau y gellid defnyddio'r gweithgaredd hwn ar eu cyfer: • Pam fod eich pwnc chi'n bwysig? • Pwy ydych chi'n meddwl y dylech chi eu cynnwys yn eich project, h.y. pwy ddylech chi eu dewis fel cyfranogwyr? • Beth yw'r ffordd orau o gynnwys pobl, h.y. pa ddull ymchwil y dylid ei ddefnyddio yn eich barn chi? • Beth mae'r canlyniadau yn ei ddweud wrthym? • Beth ydych chi'n meddwl am eich canlyniadau? • At bwy ddylen ni adrodd ar ein gwaith? • Sut dylen ni adrodd ar ein gwaith? • Beth y dylid ei gynnwys yn ein hadroddiad?	Swigod siarad papur (<i>gellir gwneud y rhain ar Clipart neu gall y grŵp eu gwneud â llaw</i>), Pennau

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

- Rhannwch eich grŵp yn grwpiau llai neu barau.
- Rhowch ddau ddarn o bapur siart troi i bob grŵp a gosod y rhain ar y llawr.
- Gofynnwch i wirfoddolwr o bob grŵp orwedd i lawr ar y papur a thynnu llinell o'i amgylch; dylai pob grŵp nawr gael 'corff' ar y papur siart troi.
- Yn dibynnu ar yr amser sydd gennych, gall pob grŵp roi enw a wyneb i'r 'corff'.
- Cyflwynwch y pwnc i'r grŵp a gofynnwch iddynt ysgrifennu/llunio eu meddyliau, teimladau a syniadau ar y 'corff'.

- Ar ôl i'r grwpiau orffen gofynnwch i bob un roi adborth ar y gwaith, gan annog trafodaeth ymysg y plant.

Gellir rhannu'r gweithgaredd yn ddwy ran er mwyn helpu'r plant i nodi a rhannu gwahanol weithredoedd a theimladau, gweithredoedd a chanlyniadau, a 'beth' a 'pham'. Er enghraifft, os mai bwlio yw'r pwnc, gallech ofyn i'r cyfranogwyr ysgrifennu geiriau y mae bwlis yn eu defnyddio o amgylch a THU ALLAN i'r corff. Ar ôl gwneud hyn, gofynnwch sut mae hyn yn gwneud i bobl deimlo a gofynnwch i'r plant ysgrifennu'r syniadau hyn y TU MEWN i'r corff.

CORFF MEWN BLWCH (PARHAD)

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Corff mewn blwch	Meddylwch am bwnc a'i ddatblygu: gofynnwch i'r grwpiau ysgrifennu'r prif faterion sy'n ymwneud â'u pwnc y tu allan i'r corff a'r rhesymau pam eu bod yn meddwl bod y rhain yn bwysig y tu mewn i'r corff. Er enghraifft, os mai 'parciau gwell' yw'r pwnc, caiff materion fel 'mae'r siglenni wedi torri' ac 'mae'n fwdlyd' eu hysgrifennu y TU ALLAN i'r corff tra byddai 'mae'n bwysig cael rhywle i chwarae gyda'ch ffrindiau' a 'mae chwarae'n cadw rhywun yn heini' yn cael eu hysgrifennu y TU MEWN i'r corff. Mae'n ffordd dda i'r grŵp wahanu materion penodol ar eu pwnc – hynny yw, 'beth' – a'r rhesymau 'pam' bod y rhain yn bwysig. Yr hyn y dylid ei ofyn: Wrth feddwl am y cwestiynau y gellid eu cynnwys yn yr ymchwil gall y plant ysgrifennu cwestiynau yr hoffent eu cynnwys y tu mewn i'r corff a chwestiynau nad ydynt yn siŵr amdanynt y tu allan i'r corff. Dehongli data: Ar ôl i chi ddadansoddi eich data dylech allu trosi'r prif ganlyniadau'n ddatganiadau neu bwyntiau gweithredu (er enghraifft, 'nid yw 80% o bobl yn hoffi'r heddlu'). Gofynnwch i'r plant ysgrifennu'r prif ddatganiadau hyn y TU MEWN i'r corff. Gofynnwch i'r grŵp feddwl am ystyr y datganiadau hyn, pam eu bod yn bwysig a sut y gellid gwella'r sefyllfa, ac ysgrifennu'r ymatebion hyn y TU ALLAN i'r corff. Mewn ymateb i'r esiempl uchod gall y plant ysgrifennu 'dylai'r heddlu wneud mwy o ymdrech i gwrdd â phobl leol'. Mae hyn yn ffordd dda i'r grŵp ddechrau ystyried eu darganfyddiadau a meddwl am yr hyn y gellid ei gynnwys yn eu hadroddiad.	Papur siart troi Pennau

GWEITHGAREDD 7

CARWSÉL PAPUR/POBL

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Ysgrifennwch gwestiynau sy'n berthnasol i'ch pwnc ar y papur siart troi (un ar bob darn o bapur). Er enghraifft, os mai'ch pwnc yw 'sut y gellid cynnwys plant yn well mewn penderfyniadau' gellid ysgrifennu'r cwestiynau canlynol:

- Pam dylid cynnwys plant mewn penderfyniadau?
 - Pa fath o benderfyniadau y dylai plant fod yn rhan ohonynt?
 - Beth yw'r ffordd orau o gynnwys plant mewn penderfyniadau?
 - Rhannwch y grŵp yn grwpiau llai neu barau gan gyflwyno'r pwnc a'r cwestiynau i'r grŵp.
- Gofynnwch i bob grŵp bach/pâr ystyried cwestiwn penodol a rhoi pum munud iddynt ysgrifennu eu syniadau/ymatebion ar y papur.
- Ar ôl pum munud, symudwch y papur neu'r grwpiau/parau o gwmpas.
 - Caniatewch bum munud arall er mwyn trafod y set nesaf o syniadau/ymatebion a'u cofnodi ar y siart troi.
 - Parhewch fel hyn nes bydd pob grŵp wedi ateb yr holl gwestiynau.
 - Rhowch adborth ar y cwestiynau a'r syniadau un ar y tro gan drafod y sylwadau fel grŵp cyfan.

GWEITHGAREDD 7 CARWSÉL PAPUR/POBL (PARHAD)

PENNOD 4
YMCHWILWYR

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Carwsél Papur/Pobl	Cwblhewch y gweithgaredd hwn gyda thrafodaeth er mwyn i'r grŵp cyfan gael clywed safbwyntiau eraill. • Dulliau ymchwil: Gellir defnyddio'r dull hwn i ystyried gwerth/ priodoldeb gwahanol ddulliau ymchwil. Ysgrifennwch ddulliau ymchwil ar bapur siart troi (1 dull fesul papur, er enghraifft, grwpiau ffocws, dyddiadur fideo ac ati). Gofynnwch i'r grwpiau ysgrifennu eu syniadau am y dull ar ddarn o bapur siart troi, e.e. beth sy'n dda/ gwael am bob dull, gyda phwy y gellid defnyddio'r dull hwn ac ati. • Moeseg: Gellir hefyd ei ddefnyddio i ystyried moeseg ac agweddau. Ysgrifennwch sefyllfa ar bob darn o bapur, fel; • Mae rhywun yn cyffroi yn ystod cyfweiliad, a ddylech chi barhau? Pam? • Yw hi'n iawn dweud wrth eich ffrindiau beth ddywedodd rhywun yn ei holiadur? Pam? Trafodwch yr holl ymatebion fel grŵp gan esbonio pa mor bwysig yw cadw'r hyn mae pobl yn ei ddweud yn gyfrinachol. • Dadansoddiad: Os yw eich ymchwil yn cynnwys lluniau, fideos, ac ati, gall pob darn o bapur ddangos detholiad o'r data. Yna dylid gofyn i'r grŵp ysgrifennu dehongliadau o ran y data hwn ar y papur. Gellid hefyd gwneud hyn gyda data ysgrifenedig. Er enghraifft, gallai pob darn o bapur gynnwys 1 cwestiwn o holiadur gydag ymatebion ar gyfer pob cwestiwn wedi'u gludo oddi tanodd. Gofynnwch i'r grŵp ddehongli'r hyn a ddywedwyd.	Papur siart troi, Pennau

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gellir cynnal y gweithgaredd hwn gyda grŵp cyfan neu gyda grwpiau llai neu barau. Sicrhewch fod un goeden ar gyfer pob grŵp/pâr.

- Cyflwynwch y pwnc ymchwil a ddewiswyd i'r grŵp a gofynnwch iddynt feddwl pam ei fod yn bwysig a beth yw eu barn nhw ar y pwnc.

- Gofynnwch iddynt ysgrifennu neu lunio sylwadau ar y dail gan llynu'r rhain ar y goeden.
- Ar ôl i bob grŵp/pâr orffen gofynnwch iddynt roi adborth/ehangu ar eu syniadau gan hwyluso trafodaeth gyda'r grŵp cyfan.

COEDEN WYBODAETH (PARHAD)

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Coeden wybodaeth	Mae'r gweithgaredd yn ymwneud â syniadau felly gellid ei ddefnyddio ar amryw gamau yn ystod y broses ymchwil: • Datblygu eich pwnc: Mae'r dull hwn yn ffordd dda o ddarganfod beth yw barn y plant ar eu pwnc penodol. • Dulliau ymchwil: Bydd angen un goeden ar gyfer pob dull yr ydych yn ei ystyried a rhwch bennawd/llun o bob dull ymchwil ar waelod pob coeden (cyfweiliad, blwch awgrymiadau, wal graffiti ac ati) Gofynnwch i'r grŵp feddwl am yr hyn sy'n dda/gwael am bob dull gan ysgrifennu hyn ar y dail. • Gan ystyried eu hymatebion, gofynnwch iddynt feddwl gyda phwy/beth y dylid defnyddio'r dull hwn a pham (e.e. mae holiaduron yn ffordd dda o gael safbwyntiau gan oedolion yn yr ardal oherwydd gallech eu rhoi mewn siopau lleol ac ati) Gallech ystyried defnyddio dail gwyrdd golau ar gyfer ymatebion cadarnhaol a rhai gwyrdd tywyll ar gyfer ymatebion negyddol cyn belled nad yw hyn yn gor-gymhlethu pethau. • Ystyried themâu: efallai bydd rhai grwpiau yn sylwi bod themâu penodol yn codi o'u project. Er enghraifft, os yw'r project yn ymwneud â pharciau efallai taw'r prif themâu fydd mynediad ac offer. Parhewch i ystyried dulliau ymchwil gan roi llun/pennawd o'r thema ar waelod y goeden a sicrhau bod un goeden ar gyfer pob thema. Adrodd: Mae coeden wybodaeth hefyd yn ffordd dda o feddwl am ba agweddau yr hoffech chi greu adroddiad arnynt, a gall hefyd fod yn ganllaw ar ysgrifennu. • Fel gydag unrhyw adroddiad, mae nifer o ffyrdd o rannu gwybodaeth. Bydd rhaid i chi a'ch grŵp benderfynu ar eich dull ond gall gynnwys: • Beth oedd ein pwnc a pham? • Sut aethom ati i gasglu safbwyntiau pobl a pham y gwnaethon ni benderfynu ar y dull hwn? • Beth wnaeth pobl ei ddweud a beth mae hyn yn ei olygu yn ein barn ni? • Yn yr achos hwn, gallech gael un goeden fesul adran o'r adroddiad (h.y. yn yr esiampl uchod byddai tair coeden gyda phob cwestiwn ar waelod y tair coeden), neu gallech gael cangen ar gyfer pob adran (eto yn defnyddio'r esiampl uchod, byddai un goeden gyda thair prif gangen gyda'r cwestiynau y cytunwyd arnynt ar bob cangen.) • Mae hyn yn ffordd dda o benderfynu ar yr hyn sydd angen ei gynnwys mewn adroddiad a gall y goeden ei hun fod yn rhan o'r broses adborth	Coeden â changhennau moel (gellid llunio coeden ar bapur siart troi), Dail papur a Blu-Tack i'w glynu, Pennau

GWEITHGAREDD 9

STORM POST-IT

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gellir cynnal y gweithgaredd hwn gyda'r grŵp cyfan:

- Cyflwynwch y pwnc ymchwil a gofynnwch i bawb ystyried pam ei fod yn bwysig.
- Gofynnwch i'r grŵp ysgrifennu sylwadau ar y nodiadau post-it a'u glynu ar y papur siart troi (gellir rhoi'r papur ar y wal, y bwrdd neu'r llawr).
- Darllenwch yr holl sylwadau a gyflwynwyd gan annog trafodaethau ar y syniadau hyn.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Storm post-it	• Meddyliwch am bwnc a/neu ei ddatblygu: Gofynnwch i bawb ysgrifennu eu syniadau o ran pa bwnc ymchwil y gallent ei ddewis a pham fod y pwnc yn un pwysig. • Ystyried moeseg: Gofynnwch i'r grŵp feddwl am ystyriaethau moesegol y dull(iau) a ddewiswyd (er enghraifft, sut ydym am sicrhau na chaiff unrhyw un ei frifo ac na pherir pryder i unrhyw un drwy gymryd rhan?) • Dulliau ymchwil: Ysgrifennwch enw'r dull ymchwil ar bapur siart troi (un dull fesul darn o bapur) a gofynnwch i'r grŵp feddwl am yr hyn sy'n dda/gwael am y dull, pwy fyddai'n addas ar ei gyfer a pham. • Datblygu cwestiynau: Ysgrifennwch enw'r dull y mae'r grŵp wedi penderfynu ei ddefnyddio ar y papur siart troi (e.e. holiadur, cyfweiliad, grŵp ffocws, blwch awgrymiadau, wal graffiti ac ati. - un dull fesul darn o bapur) a gofynnwch pa gwestiynau y maen nhw'n meddwl y dylid eu gofyn gan ddefnyddio'r dull hwnnw. • Nodi cyfranogwyr: Meddyliwch am bwy yr hoffen nhw eu cael i ateb eu cwestiynau, a pham, ac ysgrifennwch y rhain ar y nodiadau post-it. • Dadansoddiad: Defnyddiwch yr ymatebion i'r cwestiynau o'r amryw ddulliau a ddefnyddiwyd, wedi'u teipio os oes angen; e.e. os oes gennych bum cwestiwn, ysgrifennwch bob cwestiwn ar ddarn o bapur o'r siart troi. Teipiwch yr ymatebion i bob cwestiwn a'u hargraffu a'u torri allan. Rhewch yr holl ymatebion wrth y cwestiwn perthnasol ar ddarn o bapur o'r siart troi. Gofynnwch i'r plant roi'r atebion tebyg at ei gilydd a threfnu'r atebion yn themâu. • Dehongli darganfyddiadau: Ysgrifennwch ddarganfyddiadau'r grŵp fesul un ar wahanol ddarnau o bapur. Gofynnwch iddynt ysgrifennu'r hyn sy'n bwysig am y darganfyddiad hwnnw yn eu barn nhw ar y nodyn post-it, gan ei lynu. • Adrodd: Gofynnwch i'r grŵp feddwl am yr hyn yr hoffent ei gynnwys wrth greu adroddiad ar eu darganfyddiadau gan ysgrifennu'r rhain ar y nodiadau post-it.	Papur siart troi, Pennau, Nodiadau post-it

GWEITHGAREDD 10

CYTUNO / ANGHYTUNO

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

- Cyflwynwch y pwnc i'r grŵp cyfan.
- Esboniwch eich bod yn mynd i ddarllen datganiad am y pwnc a bod rhaid i bawb benderfynu p'un a ydynt yn cytuno neu beidio.
- Os ydynt yn cytuno, rhaid iddynt symud i ochr dde'r ystafell.
- Os ydynt yn anghytuno rhaid iddynt symud i ochr chwith yr ystafell (gellir ysgrifennu'r cyfarwyddiadau ar ddarn o bapur siart troi a'i arddangos).
- Darllenwch bob cwestiwn/datganiad gan gofnodi nifer y bobl sy'n cytuno/anghytuno.
- Rhannwch y canlyniadau a'u trafod gyda'r grŵp.

CYTUNO / ANGHYTUNO (PARHAD)

Amser	Gweithgaredd	Canlyniad Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Cytuno / Anghytuno	Beth yw ymchwil? Mae hwn yn weithgaredd da i gyflwyno'r syniad o ymchwil a beth yw ei nodau. Gallai datganiadau gynnwys: • mae ymchwil yn ymwneud â darganfod pethau newydd (cytuno) • dylai pob project ymchwil gael holiadur (anghytuno) Trafodwch syniadau'r grŵp a meddylwch am ddatganiad fel grŵp i gyfleu beth yw ymchwil (a'r hyn nad yw'n cael ei ystyried fel ymchwil). Moeseg: Gallai datganiadau a chwestiynau ymwneud ag ystyriaethau moesegol wrth gynnal project ymchwil. Gallai datganiadau gynnwys: • mae'n rhaid i ni gael gwybod enwau a chyfeiriadau ein cyfranogwyr (anghytuno); • mae'n iawn cymryd lluniau o blant (anghytuno); • os ydym am wneud fideo gyda phlant yn ein hysgol rhaid i ni ofyn i rieni'r plant, yn ogystal â'r plant, a rhoi gwybod iddynt pwy fydd yn gweld y fideo (cytuno); • mae'n iawn i blentyn o'r grŵp gyfweld ag oedolyn ar eu pen eu hunain (anghytuno); • mae'n iawn siarad â ffrindiau a theulu am rywbeth mae eraill yn ei ddweud wrthym ar gyfer ein hymchwil (anghytuno); • mae'n rhaid i chi bob amser sicrhau bod pobl yn hapus i gymryd rhan yn ein hymchwil (cytuno); • mae'n iawn ffilmio pobl yn gyfrinachol (anghytuno); Dadansoddiad: Os yw data ymchwil eich grŵp yn cynnwys fideos, ffotograffau, lluniau ac ati, gellir defnyddio'r gweithgaredd hwn i'r grŵp ddod i gytundeb o ran dadansoddiad/dehongliad. Er enghraifft, os oes gan eich grŵp luniau wedi'u gwneud gan blant, gellir dosbarthu'r rhain ac, mewn parau/grwpiau bychain, gall y plant drafod beth yw ystyr y lluniau yn eu barn nhw. Yna gall pob pâr neu grŵp bychan roi adborth gan ddefnyddio'r dull hwn a gall y grŵp gytuno neu anghytuno ac, yn y pen draw, ddod i gytundeb trwy drafodaeth fel hyn.	Dau ddarn o bapur siart troi; un darn gyda 'cytuno' wedi'i ysgrifennu arno a'r llall gydag 'anghytuno' arno (dewisol)

GWEITHGAREDD 11

PYNCIAU POETH

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dyma weithgaredd cyflym a difyr y gellir ei ddefnyddio i ystyried safbwyntiau'r grŵp ar bwnc neu syniad penodol.

- Esboniwrch i'r grŵp y byddwch yn darllen datganiad.
- Mae'n rhaid iddynt ymateb drwy roi gwybod i chi p'un a ydyw'n bwnc poeth (cytuno) neu oer (anghytuno).
- Ar ôl clywed datganiad rhaid i bawb ddangos eu hymateb, o chwilioeth i iasor.
- Anogwch y grŵp i drafod eu safbwyntiau.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Post it storm	Meddylwch am bwnc a/neu ei ddatblygu: Mae hyn yn ffordd dda o gael pobl i feddwl am bwnc neu ddatblygu syniad sydd ganddynt. Ysgrifennwch ddatganiadau yn ymwneud â'r pwnc i annog trafodaeth o ran ei bwysigrwydd a/neu berthnasedd. • Beth yw ymchwil? Defnyddiwch ddatganiadau'n ymwneud ag ymchwil megis – 'mae ymchwil yn ymwneud â'r hyn rwyf i'n meddwl'; 'mae gwneud ymchwil yn golygu bod rhaid i chi gael holiadur'; 'oedolion sy'n gwybod orau am ymchwil'. Anogwch drafodaeth am ymchwil; ar ddiwedd y gêm anogwch y grŵp i feddwl am ddatganiad o ran beth mae ymchwil yn ei olygu iddyn nhw. • Dulliau ymchwil: Defnyddiwch ddatganiadau'n ymwneud ag ymchwil megis – 'Beth yw holiadur?'; 'Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am gyfnewid â phobl?'; 'Fyddai blwch awgrymiadau yn ddiogel yn lleoliad a, b neu c?' Anogwch drafodaeth o ran yr hyn sydd ynghlwm wrth bob dull ymchwil ac ar ddiwedd y gêm anogwch y grŵp i ddewis eu dull(iau) ar sail eu trafodaeth. • Moeseg: Defnyddiwch ddatganiadau'n ymwneud â moeseg megis – 'Mae'n iawn tynnu lluniau o blant os mai plant sy'n eu tynnu'; 'Nid oes angen caniatâd i gael holiadur'; 'Mae angen i ni wybod enwau'r bobl sy'n rhan o'n gwaith ymchwil'. Anogwch drafodaeth o ran beth mae pob datganiad yn ei ddweud a sicrhewch fod y grŵp yn deall y cefndir moesegol tu ôl i'w pwnc penodol. Felly, fel gyda'r cwestiynau uchod – Nid yw'n iawn tynnu llun o unrhyw un heb ei ganiatâd, waeth pwy sy'n tynnu'r llun. Nid oes angen caniatâd arnoch ar gyfer holiadur cyhyd nad yw'n rhy bersonol nac yn peri gofid i'r cyfranogwr. Prin iawn bod angen enwau'r bobl sy'n cymryd rhan yn eich ymchwil. Er enghraifft, os bydd y grŵp wedi gwneud holiadur ni fydd angen gwybod enwau'r bobl, ond efallai bydd angen i chi wybod eu hoedran a/neu ryw.	Datganiadau i'w gofyn i'r grŵp

GWEITHGAREDD 12

SIWRNEIAU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

- Rholiwch y papur wal allan neu gosodwch y papur siart troi ar y llawr a'i llynu gyda Blu Tack.
- Gofynnwch i'r grŵp feddwl am nod neu rywbeth y maen nhw eisiau ei gyflawni gan ysgrifennu neu lunio'r nod hwn ar un ochr o'r papur.
- Gofynnwch i wirfoddolwyr dynnu llinell o amgylch eu traed a thynnu llun o draed ar y papur fel ei fod yn edrych fel bod rhywun wedi cerdded ar hyd y papur tuag at y nod.
- Rhewch bum munud i'r grŵp drafod beth sydd angen iddynt ei wneud i gyflawni'r nod hwn.
- Ar ôl pum munud gofynnwch i'r grŵp feddwl am ba gamau sydd ynghlwm.
- Ysgrifennwch y camau sydd ynghlwm i gyflawni'r nod a ddewiswyd gan y grŵp.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Siwrneiau	Adrodd/Gwerthuso: Mae hwn yn weithgaredd da iawn i grwpiau ei wneud tua diwedd eu project. Bydd yn galluogi'r grŵp i feddwl am y broses maen nhw wedi bod yn rhan ohoni a'r hyn y maen nhw wedi'i gyflawni. • O ran adrodd, bydd y gweithgaredd hwn yn galluogi'r grŵp i feddwl am yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr adroddiad. Er enghraifft, yn un o'r sesiynau cyntaf gallai'r grŵp fod wedi eisiau cynnwys plant yn eu harddegau yn y project ond gan gael trafferth cael gafael arnyn nhw ac felly penderfynu canolbwyntio ar grŵp gwahanol. Gallai hyn fod yn berthnasol yn ystod y broses adrodd ac yn rhywbeth y mae aelodau o'r grŵp wedi'i anghofio o bosib (er os ydyn nhw'n cadw dyddiadur neu gofnod project gellir osgoi hyn).	Papur siart troi neu rolyn o bapur wal, Pennau lliw, Blu Tack

GWEITHGAREDD 13

PWY YDW I?

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

- Gofynnwch am wirfoddolwr o'r grŵp a gofyn iddo feddwl am berson enwog (heb ei ddatgelu).
- Esboniwch i weddill y grŵp fod rhaid iddynt ofyn cwestiynau i'r gwirfoddolwr i geisio darganfod pwy yw'r person enwog.
- Bydd y gwirfoddolwr yn ateb gydag ie neu na yn unig.
- Rhowch bum munud i'r grŵp ofyn cwestiynau (neu rhowch nifer benodol o gwestiynau iddynt- e.e. 20 yn unig) gan ddweud wrthynt fod rhaid iddynt ddyfalu ar ôl hynny.
- Trafodwch y rhesymau dros gael yr ateb yn gywir neu'n anghywir; oes rhywbeth llwyddiannus neu rywbeth gwallus o ran y math o gwestiynau a ofynnir ganddynt?
- Parhewch â'r gêm gyda gwirfoddolwyr eraill.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Pwy ydw i?	Cwestiynau ymchwil: Mae hwn yn weithgaredd da i ddatblygu dealltwriaeth eich grŵp o gwestiynau. Mae'n gyflwyniad da i gwestiynau agored a phenodol; gallwch ei amrywio drwy gynnal y gweithgaredd gyda'r gwirfoddolwr yn ateb y cwestiynau gydag 'ie' neu 'na' yn unig a'i gynnal eto lle bydd y gwirfoddolwr yn ateb yn fwy cyflawn. Trafodwch y gwahanol ymatebion gyda'r grŵp (h.y. cewch fwy o wybodaeth gyda chwestiynau agored.) Gallwch hefyd ofyn i rywun wneud nodiadau ar y prif bwyntiau o'r atebion fel bod y plant yn dechrau deall pa anawsterau a allai godi. - O ystyried hyn, gofynnwch i'r plant feddwl am y cwestiynau ar gyfer eu hymchwil eu hunain (holiadur, graffiti, wal, cyfweliad ac ati) a thrafod pa gwestiynau sy'n berthnasol a pham (er enghraifft, mae cwestiynau agored yn rhoi mwy o wybodaeth ond ai dyma beth sydd ei angen mewn holiadur?) Cyfweld: Mae hon yn gêm wych ar gyfer ymarfer technegau ymchwil a dulliau holi. Mae hefyd yn ffordd dda i'r grŵp fagu hyder cyn cynnal eu cyfweliadau go iawn. Gall hefyd helpu'r plant i weld y gwahanol atebion a geir drwy gwestiynau agored a phenodol; ceir llawer mwy o wybodaeth a chyfweliad sy'n llifo'n well drwy ofyn cwestiynau agored.	Dim byd

GWEITHGAREDD 14

PLEIDLEISIO DOT

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

- Ysgrifennwch gwestiynau ac atebion posibl ar y papur siart troi/cerdyn ar ffurf tabl.
- Rhowch ben neu ddigon o ddotiau gludiog i bawb allu ateb yr holl gwestiynau.
- Dylai aelodau'r grŵp ateb y cwestiynau unai drwy roi dot yn y bocs ateb perthnasol neu ei farcio gyda phen.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Pleidleisio dot	Gellir defnyddio'r gweithgaredd hwn ar amryw gamau yn ystod y broses ymchwil: Meddylwch am bwnc: Os na all eich grŵp benderfynu ar bwnc gellid defnyddio'r gweithgaredd fel system bleidleisio ddefnyddiol a rhwydd. Fodd bynnag, nid yw'n gyfrinachol ac felly ni fyddai'n addas i bob grŵp. Pa ddull: Ysgrifennwch yr holl ddulliau ymchwil y mae'r grŵp yn credu a allai fod yn berthnasol a gofynnwch iddynt bleidleisio am y dull y maen nhw'n meddwl a fyddai'n gweithio orau. Cwestiynau ymchwil: Pa gwestiynau maen nhw'n meddwl y dylid eu cynnwys yn yr holiadur/cyfweliad? Adrodd ar yr hyn sy'n bwysig: Gellid defnyddio'r dull hwn fel ffordd i'r grŵp benderfynu ar y pwyntiau pwysicaf i'w cynnwys yn eu hadroddiad. Dechreuwch drwy drafod y prif bwyntiau a gwneud rhestr. Ar ôl i'r rhestr gael ei chwblhau gofynnwch i'r grŵp ddewis y pwyntiau pwysicaf drwy ddefnyddio'r system pleidleisio dot, er enghraifft dewis tri phrif ddewis. Dadansoddiad o ddata meintiol: Ysgrifennwch y cwestiynau y mae'r grŵp wedi'u defnyddio yn eu holiaduron, cyfweliadau ac ati, ar ffurf graff ar bapur siart troi (neu rhowch un cwestiwn ar bob darn o bapur os oes llawer o gwestiynau). Rhannwch y grŵp yn grwpiau llai/parau a rhowch ddetholiad o'r data crai i bob grŵp (holiaduron, ymatebion o'r blwch awgrymiadau ac ati... unrhyw beth a oedd yn cynnwys data meintiol. - Gofynnwch i'r grŵp edrych ar y data a marcio'r ymatebion ar y siart troi. Er enghraifft, os mai un o'r cwestiynau oedd 'Ydych chi'n hoffi'r ysgol?' a bod modd ateb gydag 'ydw'/'nac ydw'/'weithiau', bob tro y byddai rhywun yn ateb gydag 'ydw' byddai'r grŵp yn marcio hynny ar y siart troi. Yn y pen draw, bydd yr holl ymatebion i'r cwestiynau ar y siart troi. Y cam nesaf yw cyfrif nifer y dotiau ar gyfer pob cwestiwn (atebodd 20 o bobl gydag 'ydw' (eu bod yn hoffi'r ysgol), atebodd 20 o bobl gyda 'nac ydw' (nad ydynt yn hoffi'r ysgol) a dywedodd 20 o bobl eu bod yn hoffi'r ysgol 'weithiau'. Yna, gyda'ch help chi, gellir troi'r rhain yn ganrannau a'u defnyddio fel ystadegau.	Papur siart troi/cerdyn, Pennau neu ddotiau gludiog

GWEITHGAREDD 15

SGÔR DIEMWNT

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

- Mae'r gweithgaredd hwn yn dilyn y gweithgaredd 'Storm Post-it' a esboniwyd ar dudalen 48. Ar ôl i'r holl syniadau gael eu casglu ar nodiadau post-it, dylid rhoi'r atebion tebyg gyda'i gilydd mewn pentyrrau post-it.
- Dylai'r grŵp flaenoriaethu'r pentyrrau drwy drefnu'r nodiadau post-it yn ôl pwysigrwydd/perthnasedd.
- Gellir gwneud hyn fel grŵp cyfan neu, os oes gennych fwy nag un storm post-it, mewn grwpiau – e.e. mae angen tri grŵp ar gyfer tair Storm Post-it.
- Rhannwch syniadau fel grŵp cyfan gan gychwyn trafodaeth.
- Dylai pob grŵp ddod i gytundeb o ran yr hyn a flaenoriaethir (os nad yw hyn yn bosibl, penderfynwch ar faterion drwy bleidleisio).

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 min	Dot voting	Yn yr un modd ag y mae'r gweithgaredd hwn yn dilyn y gweithgaredd storm post-it, mae hyn hefyd yn wir o ran ei berthnasedd i ymchwil: Meddylwch am bwnc a/neu ei ddatblygu: Os oes llawer o syniadau ar gyfer pwnc, dylai'r gweithgaredd hwn alluogi'r grŵp i nodi syniadau tebyg a phenderfynu ar bwnc. Datblygu cwestiynau/ystyried y cefndir moesegol: Efallai bydd y gweithgaredd hwn yn ddefnyddiol er mwyn lleihau nifer y cwestiynau y meddylir amdanynt i gychwyn; gellir nodi materion moesegol fel prif ffactor yn y broses flaenoriaethu. Drwy flaenoriaethu cwestiynau bydd y plant yn gallu canolbwyntio ar themâu penodol. Nodi cyfranogwyr: Drwy flaenoriaethu pa gyfranogwyr i ganolbwyntio arnynt, a pham, bydd y grwpiau'n gallu gweithio'n llawer haws. Dadansoddiad: Mae gosod ymatebion ar ffurf diemwnt yn ffordd hawdd i'r grŵp flaenoriaethu darganfyddiadau o ran y data meintiol ac ansoddol. Gofynnwch i'r grwpiau gyfrif nifer yr ymatebion a dderbyniwyd a blaenoriaethu ymatebion yn ôl nifer yr ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer pob cwestiwn (h.y. o'r uchaf i'r isaf). Drwy eu blaenoriaethu fel hyn bydd y grŵp yn gallu canolbwyntio ar yr ymatebion mwyaf/lleiaf poblogaidd. Drwy ofyn i'r grŵp ystyried pam bod gan rai atebion fwy o ymatebion nag eraill, byddant yn dysgu am ddadansoddi meintiol. Gallwch hefyd ofyn i'r grŵp ail-flaenoriaethu'r ymatebion yn ôl yr hyn y maen nhw'n meddwl sydd bwysicaf a pham. Eto, bydd hyn yn gwella eu dealltwriaeth o ddadansoddi meintiol. Dehongli darganfyddiadau/adrodd: Drwy flaenoriaethu dehongliadau o'u darganfyddiadau, bydd plant yn gallu canolbwyntio ar eu gwaith, ac yn gallu penderfynu ar yr hyn yr hoffent ei gynnwys yn eu hadroddiad terfynol.	Papur siart troi, Nodiadau post-it, Pennau

GWEITHGAREDD 16

THERMOMEDR SYNIADAU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Cyflwynwch y pwnc a ddewisir i'r grŵp a dechrau trafod y prif faterion/ syniadau sydd gan y grŵp amdano:

- Rhewch nodiadau post-it a phen i bawb yn y grŵp.
- Gofynnwch i'r grŵp feddwl am agwedd arbennig ar y pwnc (e.e. os mai'r pwnc yw 'amser chwarae yn yr ysgol' gallwch ofyn i'r grŵp feddwl am weithgareddau, offer sydd ar gael ac ati).
- Gofynnwch iddynt ysgrifennu pob syniad ar nodyn post-it.
- Esboniwch fod angen gludo pob nodyn post-it ar frig, canol neu waelod y thermomedr:
- Mae brig y thermomedr (a all fod yn goch) yn golygu ei fod yn boeth iawn h.y. da iawn, gwych ac ati)
- Mae'r canol (a all fod yn oren) yn golygu ei fod yn iawn neu ddim yn rhy wael.
- Mae'r gwaelod (a all fod yn las) yn golygu ei fod yn oer h.y. ddim yn dda iawn, ddim yn boblogaidd ac ati.
- Ar ôl i bawb roi eu sylwadau ar y raddfa thermomedr yn y man priodol darllenwch y syniadau a thrafod gyda'r grŵp cyfan p'un a ddylid symud rhai materion i fyny neu lawr y raddfa, a pham.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Thermomedr syniadau	• Pa ddull ymchwil: Trafodwch y gwahanol ddulliau ymchwil gyda'r grŵp (holiaduron, grwpiau ffocws, blychau awgrymiadau ac ati) Ysgrifennwch enwau pob dull ar nodyn post-it a gofynnwch i'r grŵp roi pob dull ar y thermomedr yn ôl pa mor berthnasol ydyw i'w gwaith. • Adrodd: Ysgrifennwch brif ddarganfyddiadau'r grŵp o'u hymchwil ar nodiadau post-it (un darganfyddiad/ thema ar bob post-it). Gofynnwch i'r grŵp osod pob thema ar y thermomedr syniadau yn ôl pwysigrwydd o ran y broses adrodd e.e. beth yw'r pwyntiau pwysicaf yr ydych chi'n meddwl y dylai pobl wybod amdanynt? • Gwerthuso: Mae hwn yn weithgaredd da i'w gynnal gyda'r grŵp i gael gwybod sut roedd rhai agweddau ar eu project wedi mynd yn eu barn nhw.	Papur siart troi gyda thermomedr wedi'i lunio arno, Nodiadau post it, Pennau

CONTINWWM GWERTH

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Mae hyn yn ffordd gyflym a rhwydd o gael barn pobl ar bwnc ac mae'n weithgaredd da i seilio penderfyniadau arnynt:

- Lluniwch neu gofynnwch i'r grŵp ddychmygu llinell anweledig ar draws yr ystafell (fel y nodir, mae'n haws os gallwch farcio'r llinell gyda datganiadau fel cytuno, weithiau, anghytuno neu rif o 1 i 5 lle mae 1 yn golygu yn bendant/ie a 5 yn golygu byth/na. Pa un bynnag a ddewiswch sicrhewch eich bod yn penderfynu cyn y sesiwn).
- Meddylwch am ddatganiadau yr hoffech i'r grŵp eu hystyried a'u darllen yn uchel.
- Gofynnwch i bawb ddangos eu hateb drwy sefyll yn y continwwm gwerth (os ydynt yn cytuno dylent sefyll wrth ymyl y pen 'cytuno' ac os ydyn nhw'n anghytuno dylent sefyll wrth y pen 'anghytuno').
- Sicrhewch eich bod yn marcio'r ymatebion ac yn annog y grŵp i drafod eu syniadau.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Continwwm Gwerth	• Beth yw ymchwil? Meddylwch am ddatganiadau'n ymwneud ag ymchwil megis – 'mae ymchwil yn ymwneud â'r hyn rwyf i'n meddwl'; 'mae gwneud ymchwil yn golygu bod rhaid i chi gael holiadur'; 'oedolion sy'n gwybod orau am ymchwil'. Darllenwch bob datganiad a gofynnwch i bawb ddangos eu hymatebion drwy sefyll ar y continwwm. Trafodwch bob datganiad gyda'r grŵp gan ofyn iddynt pam eu bod wedi ymateb fel y gwnaethon nhw. • Dulliau ymchwil: Defnyddiwch ddatganiadau'n ymwneud ag ymchwil megis – 'Beth yw holiadur?'; 'Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am gyfnewid â phobl?'; 'Fyddai blwch awgrymiadau yn ddiogel yn lleoliad a, b neu c?' Anogwch drafodaeth o ran yr hyn sydd ynghlwm wrth bob dull ymchwil ac ar ddiwedd y gêm anogwch y grŵp i ddewis eu dull(iau) ar sail eu trafodaeth. • Moeseg: Meddylwch am ddatganiadau'n ymwneud ag ymchwil – 'Mae'n iawn tynnu lluniau o blant os mai plant sy'n eu tynnu'; 'Nid oes angen caniatâd i gael holiadur'; 'Mae angen i ni wybod enwau'r bobl sy'n rhan o'n gwaith ymchwil'. Trafodwch bob datganiad gyda'r grŵp gan ofyn iddynt pam eu bod wedi ymateb fel y gwnaethon nhw. • Gwerthuso'r broses: Dyma ffordd gyflym a difyr o gael gwybod beth oedd pobl yn ei feddwl am fod yn rhan o'r project. Meddylwch am ddatganiadau yr hoffech i'r grŵp eu hystyried gan gynnwys: 'Rwyf wir wedi mwynhau bod yn rhan o'r project'; 'Pe bai rhywun yn gofyn beth yw ymchwil bydden i'n gwybod yr ateb'; 'Y peth gorau am y project oedd meddwl am bwnc, ymchwilio i'r pwnc, y cefndir moesegol, creu adroddiad ac ati...'. Cofnodwch ymatebion pawb a'u defnyddio ar gyfer trafodaeth bellach yn ystod y broses werthuso.	Gellid gwneud y gweithgaredd hwn heb unrhyw adnoddau, ond byddai'n haws pe baech yn gwneud marcwyr ar gyfer y continwwm megis 'cytuno' 'weithiau' ac 'anghytuno' neu rifau 1 i 5